Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Rhagfyr 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | D W Helliwell |
| P K Jones | W G Lewis | C E Lloyd |
| S Pritchard | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | L R Jones |

**Hefyd yn Bresennol**
Y Cynghorydd Mark Thomas Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd
Y Cynghorydd David Hopkins Dirprwy Arweinydd ar y Cyd/Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau
Y Cynghorydd Jennifer Raynor

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Geoff Bacon | Pennaeth Gwasanaethau Eiddo |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Gavin Newman | Rheolwr Gwasanaethau Parcio |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp Isadeiledd Trafnidiaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): H Lawson a/ac G J Tanner
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: J W Jones

---

## 70 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Clive Lloyd – Cofnodion rhif 74 a 82 – Datganodd y Cynghorydd Clive Lloyd fuddiant personol a rhagfarnol a thynnodd yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau.

**71 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**72 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

**73 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**74 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Polisi, Rheoli a Gorfodi Parcio.**

Roedd yr Aelod Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, Arweinydd y Grŵp Isadeiledd Trafnidiaeth a Rheolwr y Gwasanaethau Parcio'n bresennol ar gyfer yr adroddiad ar Bolisi, Rheoli a Gorfodi Parcio.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar: -

- Gyllideb Weithredol y Gwasanaethau Parcio – Eglurhad ar y gydberthynas rhwng y Gyllideb Weithredu, Targedau Incwm ac Incwm Gwirioneddol

- Gorfodi parcio sifil – Nodwyd bod hwn yn weithrediad hunangyllidol. Cafwyd trafodaeth ynghylch clustnodi refeniw o Hysbysiadau o Dâl Cosb i'r gyllideb priffyrdd er mwyn gwella Priffyrdd a/neu ddiogelwch

- Anawsterau posib gorfodi cilfachau parcio preswylwyr gyda hawlenni di-bapur a'r posibilrwydd o ddatblygu ap neu wasanaeth ar-lein i ganiatáu i breswylwyr wirio am hawlenni – dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd Swyddogion am i breswylwyr herio'r cyhoedd ar hawlenni ac y byddai Swyddogion yn gwirio am hawlenni cyn mynd i'r safle i ymchwilio; ond byddai'r mater yn cael ei ystyried ymhellach

- Parcio ar Balmentydd – prin oedd y pwerau gorfodi ar ffyrdd anghyfyngedig. Gellid cymryd camau fel gosod celfi stryd yng nghanol y ddinas i wella'r estheteg wrth annog pobl hefyd i beidio â pharcio ar balmentydd

- Cynnydd o ran gwella'r ddarpariaeth parcio beiciau'n ddiogel – Disgwylid i ddau safle ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel gael eu cwblhau'n fuan ar Fabian Way ac ym Maes Parcio'r Cwadrant yn ogystal â'r man parcio beiciau nad yw'n ddiogel y tu allan i McDonalds yng Ngerddi'r Castell. Byddai man parcio beiciau diogel hefyd ym maes parcio newydd yr Arena

- Lefelau staffio o fewn y gwasanaethau parcio

- Glendid meysydd parcio – eglurhad ar gyfrifoldebau'r Gwasanaethau Parcio a chyfrifoldebau'r Timau Parciau a Glanhau

- Buddsoddi mewn meysydd parcio – Byddai dau faes parcio newydd ar gael y flwyddyn nesaf (Datblygiad Bae Copr a'r Arena) byddai technoleg ddi-docyn yn cael ei gosod yn y rhain lle byddwch yn talu wrth i chi ddychwelyd i'r cerbyd – y flaenoriaeth allweddol oedd darparu hyblygrwydd a dewis ar sut i dalu am barcio

- Patrolio parcio yn y maestrefi yn ogystal â chanol y ddinas – pwysigrwydd gwybodaeth gan aelodau'r ward wrth nodi problemau a mannau lle ceir problemau mynych.

- Roedd safleoedd posib ar gyfer lleoliadau mannau parcio a theithio'n cael eu hystyried o hyd

- Effeithlonrwydd gorfodi parcio - Roedd swyddogion yn patrolio mewn parau ac roedd diogelwch staff yn hollbwysig; byddai swyddogion yn rhannu gwaith yn yr ardal er mwyn effeithlonrwydd e.e. cymryd ochr o'r stryd yr un

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

**75 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Amgylchedd Naturiol (Y Cynghorydd Peter Jones, Cynullydd)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Jones, Cynullydd, Adroddiad Diweddaru Panel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol. Pwysleisiodd bwysigrwydd y Panel a thynnodd sylw at weithgareddau diweddar, gan gynnwys: -

- Y Datganiad Argyfwng Hinsawdd – Cynnydd gyda Chynllun Gweithredu'r cyngor ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Rheoli Ansawdd Aer
- Clefyd coed ynn
- Rheoli Perygl Llifogydd Lleol
- Llygredd Dŵr

Yn ogystal â chyfarfodydd y Panel, adroddodd y Cynullydd hefyd y byddai'n cwrdd yn anffurfiol â'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur a Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol i gadw mewn cysylltiad a diweddaru'i gilydd ar faterion perthnasol.

Diolchodd y Cynullydd i Emily Davies, y Swyddog Craffu, am ddarparu'r gefnogaeth graffu iddo ef ei hun ac i Aelodau'r Panel.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynullydd am yr adroddiad.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 76 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith.

Cyflwynodd y Cadeirydd/Arweinydd y Tîm Craffu'r 'Adroddiadau Craffu – Effaith', gan dynnu sylw at gyflawniadau craffu yn ystod ail ran blwyddyn ddinesig 2021/2022.

**Penderfynwyd** bod yr adroddiad yn mynd ymlaen i'r cyngor.

## 77 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth y paneli a'r gweithgorau craffu. Ni nodwyd unrhyw newidiadau.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 78 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar y Rhaglen Waith Craffu.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 18 Ionawr 2022. Y prif eitemau a drefnwyd oedd: -

- Sesiwn Holi ac Ateb gydag Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Cynghorydd Rob Stewart.
- Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Nodwyd hefyd fod yn rhaid canslo'r Gweithgor Diogelwch Ffyrdd a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror 2022 oherwydd pwysau ar y gwasanaeth, ac y byddai'n cael ei ohirio tan ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Derbyniwyd cais cyhoeddus am graffu ynghylch anawsterau gwefru cerbydau trydan gartref i'r rheini heb fannau parcio oddi ar y stryd. Mae hyn wedi'i drosglwyddo i'r Aelod(au) Cabinet perthnasol yn y lle cyntaf ar gyfer ymateb ac, yn dibynnu ar yr ymateb, bydd y Cadeirydd yn ystyried a yw'r mater hwn yn haeddu trafodaeth mewn cyfarfod craffu yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 79 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y caiff y Llythyrau Craffu eu nodi.

## 80 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

## 81 Gwahardd y Cyhoedd.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried adroddiad ar 'Gaffael ac Ailddatblygu Lesddaliadau RhGA7 – 279 Stryd Rhydychen/25-27 Princess Way' ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

## 82 Craffu Cyn Penderfynu: Caffael ac Ailddatblygu Lesddaliadau RhGA7 - 279 Stryd Rhydychen / 25-27 Princess Way.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cabinet sef 'Caffael ac Ailddatblygu Lesddaliadau Arfaethedig RhGA7 - 279 Stryd Rhydychen/25-27 Princess Way'.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu barn y Pwyllgor, a chaiff adborth ei gyflwyno i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2021 cyn penderfyniad y Cabinet.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.05 pm

**Cadeirydd**